

- Mae'r Ysgol Bontio yn un Gymraeg, a ddarparir addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y flwyddyn 2023, roedd 507 o ddisgyblion yn yr Ysgol. Hynny yw disgyblion o 3 i 11 oed, gan gynnwys yr adran meithrin sy'n rhan o'r ysgol.
- Ar gyfartaledd, dros y tair blwyddyn ddiwethaf, oedd 9.7% o blant yn gymwys ar gyfer prydau bwyd ysgol am ddim. Yn Medi 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bod plant Cyfnod Allweddol 1 (Blwyddyn Derbyn, 1 a 2) mynd i gael prydau bwyd ysgol am ddim. Felly mae'n bosib nid yw hyn wedi digwydd yn yr ardal yma eto. Nawr mae'r Llywodraeth Cymru am geisio bod pob plentyn yn cael prydau bwyd ysgol am ddim. Yn fwy neu lai 272,000 o ddisgyblion cynradd yng Nghymru.
- Yn 2023, cofnodwyd bod tua 3.2% o ddisgyblion sy'n Du, Asiaidd ac Ethnigrwydd Lleiafrif. Hynny yw cynnydd o 1.4% yn yr ysgol ers 2018.

Theori System Ecolegol Bronfenbrenner


- Prif bwynt Bronfenbrenner yn y theori yma yw profi sut gall cyfres o systemau amgylcheddol sy'n gysylltiedig dylanwadu ar ddatblygiad unigolyn.
- Systemau sy'n cynnwys y 'Microsystem', 'Mesosystem', 'Exosystem', 'Macrosystem' a 'Chronosystem'. Yn amrywio o amgylcheddau uniongyrchol fel teulu i ddylanwadau strwythurau cymdeithasol fel diwylliant.
- Mae modd gweithredu'r ddamcaniaeth yma yn y dosbarth gan ystyried y pum system amgylcheddol. Yn enwedig y 'Macrosystem' sy'n sicrhau fod plant yn ymwybodol o agweddau o amrywiaeth a chynhwysiant, gall cynnwys crefydd a diwylliant.
- Yn bwysig yw cadw cyfathrebiad da rhwng yr athro a'r rhieni, nid yn unig er mwyn sicrhau bod sgiliau yn cael eu hymarfer ond hefyd er lles ffurfiad positif datblygiad y plentyn. Yn ôl y theori gall y cyfathrebiad da hefyd fod yn fuddiol i'r plentyn i gryfhau'r systemau ecolegol mewn addysg.

Amrywiaeth a Chynhwysiant

- Mae Cymru'n wlad sy'n derbyn a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant. Er mwyn i blant teimlo'n gyfforddus am eu crefydd, ethnigrwydd, iaith a diwylliant. Hefyd eu bod gallu bod yn agored am eu teimladau o ran rhyw a rhagenwau.
- Yn ogystal ag bod yn wlad sy'n cofleidio unigolion sy'n cefnogi diwylliant Cymru ac yn ethnigrwydd lleiafrif.
- Wrth gynllunio polisiau mae'n bwysig bod yr Ysgol yn ystyried sefyllfa ac amgylchiadau disgyblion. Er enghraifft disgyblion gyda ADY, disgyblion sy'n cael gofal gan yr awdurdodau lleol a disgyblion lesbiaidd, hoyw, trawsrywiol a deurywiol.
- Gan ystyried y Cwricwlwm I Gymru, mae'r pum egwyddor sy'n sail i'r Pedwar Diben. Gan gynnwys Egwyddorion Addysg Gynhwysol.
- Cred Darlington (2003, p2) bod gan gynhwysiad sawl egwyddor allweddol, gan gynnwys gwerthfawrogi amrywiaeth, hawliau, urddas, anghenion unigol, cynllunio, cyfrifoldebau cyfrannol, datblygiad proffesiynol a chyfleoedd cyfartal.

Amgylcheddau Dysgu Effeithiol

- Rhaid bod amgylchedd dysgu sy'n effeithiol cynorthwyo mewn pob maes datblygiad plentyn.
- Gan ystyried yr Ysgol pontio, yn enwedig yn adran y Dysgu Sylfaen, ceir darpariaethau parhaus a chyfoethogi oedd yn sicrhau datblygiad yn Gorfforol, Gwybyddol, Cymdeithasol, Emosiynol a Llesiant.
- Roedd gan yr Ysgol Pontio darpariaethau o amgylch yr ystafell. Yn amrywio o ddarpariaeth cyfoethogi gan ddefnyddio 'tuff trays' gydag eitemau'r Hydref er mwyn datblygu sgiliau echddygol manwl. Yn ogystal â darpariaeth barhaus fel ardal allanol gyda beiciau, sgwteri a crates pren, yr hyn sydd angen ar gyfer datblygiad echddygol bras.
- Mae rhyngweithiadau parhaus gyda'r plant yn bwysig er mwyn sicrhau Amgylchedd Dysgu Effeithiol ac arfer da. Gall rhyngweithiadau parhaus sicrhau dealltwriaeth o ran diddordebau a galluoedd y plentyn. Sy'n gwneud asesu, cynllunio a dysgu'n haws gan fod mwy o wybodaeth am y plentyn i gael.
- Mae dilyn y Deuddeg Egwyddor Addysgeg hefyd yn sicrhau arfer da yn y dosbarth.



Gwerthoedd Cymru a'r Chwricwlwm

- Ers Medi 2022 mae'r Cwricwlwm I Gymru wedi bod mewn lle. Syniad Newydd yw'r Pedwar Diben sy'n Sylfaen i'r Cwricwlwm I Gymru.
- Gan waredu ar y syniad o bynciau unigol angenrheidiol, maent wedi creu chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Pob Maes yn rhoi pwyslais ar wybodaeth, sgiliau a phrofiadau penodol i feithrin dysgwyr sy'n gwireddu'r Pedwar Diben.
- O ganlyniad i'r Cwricwlwm I Gymru ceir sawl peth arall rhaid cymryd mewn i ystyriaeth gan gynllunio cwricwlwm newydd; Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig (ar gyfer pob MDaPh), Y Deuddeg Egwyddor Addysgeg a'r Camau Cynnydd.
- Yr hyn dechreuodd yr angen am Gwricwlwm Newydd oedd adolygiad Graham Donaldson ar addysg yng Nghymru. Cred Donaldson bod gormod o bwyslais ar iaith, llythrennedd, mathemateg, darllen a gwyddoniaeth. Nid yw'n helpu gyda chanlyniadau PISA ond yn gwneud Cymru'n fwy caeedig.
- Un o brif egwyddorion y Cwricwlwm I Gymru yw Datganoli. Egwyddor sy'n sicrhau bod y pŵer i wneud penderfyniadau yn aros mor agos i'r weithred ag sy'n bosib.
- Gwerth arall sydd gan Gymru yw addysg cyfiawnder cymdeithasol, addysg sy'n sicrhau cyfiawnder cymdeithasol. Un sy'n deg ac o safon i bob myfyriwr.
- O fewn addysg ceir tair model, sef Ecwiti, Cydraddoldeb a Chyfiawnder. Nod Cydraddoldeb yw bod pawb yn cael yr un peth. Ceir Ecwiti sy'n sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfleoedd. Ond Cyfiawnder ydy'r fodel gorau gan ystyried tegwch.

Gweithio gyda Rhieni a Chymunedau

- Gan ystyried yr Ysgol Pontio, yn effeithiol iawn oeddent yn sicrhau bod gan rieni a'r gymuned cyfraniad gwerthfawr mewn addysg a chwricwlwm y plant. Yn enwedig pwysleisio'r rôl sydd gan rieni ar y cyd gyda'r ysgol i sicrhau llwyddiant y plentyn. Yn pwysleisio pwysigrwydd y cydweithrediad rhwng y cartref a'r ysgol mae'r 'Cytundeb Cartref/Ysgol'.
- Bwysig iawn yw cydweithrediad rhieni yn y cartref gan sicrhau bod y plentyn yn ymarfer sgiliau fel darllen, rhifedd ac ysgrifennu. Mae'r Ysgol Bontio yn sicrhau hyn gan ddarparu pecyn 'Tric a Chlic', Cofnod Darllen ac awgrymu apiau addas.
- Darparwyd yr ysgol nifer o adnoddau ar gyfer rhieni cyn i'r plant ddechrau yn llawn amser, yn amrywio o lyfr 'dysgu gyda Sam' ar gyfer rhieni Newydd, l nifer o gyrsiau dysgu'r Gymraeg ar gyfer rhieni.
- Yn cefnogi'r angen am greu cyd-destunau dilys ar gyfer y plant, mae'r ysgol yn darparu nifer o gyfleoedd i blant dysgu am swyddi ymwelwyr fel nyrsys a deintyddion. Mae hefyd bosib i Rieni dod mewn a rhannu eu harbenigedd gyda'r dosbarth.
- Ffordd arall mae'r ysgol bontio yn sicrhau cyd-destunau Dilys yn y gymuned yw trwy annog y plant i helpu elusennau fel 'Birchgrove Foodbank' a chymryd rhan yn y casgliad ar gyfer y digartref gan yr Eglwys.